

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

14/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

26/03/219

Ymchwil ar Oblygiadau Brexit ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru

Teitl: Ymchwil ar Oblygiadau Brexit ar y Gweithlu Gofal
Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru

Awdur(on): Hutcheson, Linda and Ormston, Rachel

Adroddiad ymchwil llawn:

Hutcheson, L; Ormston, R (2019). Ymchwil ar Oblygiadau Brexit ar y Gweithlu
Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru,
GSR adroddiad rhif 14/2019

Ar gael yn: [https://llyw.cymru/effaith-brexit-ar-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-
gofal-plant-0](https://llyw.cymru/effaith-brexit-ar-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-gofal-plant-0)

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r
ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: faye.gracey@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau.....	2
Rhestr o'r ffigurau	3
Geirfa 4	
1. Cyflwyniad.....	5
2. Methodoleg	6
3. Gofal cymdeithasol: Maint y gweithlu sydd o'r UE ac nid y DU	10
4. Gofal cymdeithasol: Safbwyntiau ar recriwtio a chadw staff.....	15
5. Gofal plant: Maint y gweithlu sydd o'r UE ac nid y DU	25
6. Gofal plant: Safbwyntiau ar recriwtio a chadw staff.....	29
7. Gofal plant: Capasiti cofrestredig uchaf, rhestrau aros a chymwysterau	37
8. Crynodeb a chasgliadau.....	40
Adran cyfeirnodau.....	42
Atodiad A: Holiadur.....	43

Rhestr o'r tablau

Tabl 2.1: Proffil sampl o leoliadau gofal cofrestredig yng Nghymru	7
Tabl 3.1: Amcangyfrif o faint staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig.....	12
Tabl 5.1: Amcangyfrif o faint staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig	26

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 3.1: Amcangyfrif o'r gyfran o staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig.....	11
Ffigur 3.2: Amcangyfrifon yn ôl math o gyflogwr mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig	13
Ffigur 3.3: Amcangyfrifon yn ôl mathau o staff mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig	13
Ffigur 3.4: Amcangyfrifon yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig.....	14
Ffigur 4.1: Rhwyddineb recriwtio dros y 12 mis diwethaf – gofal cymdeithasol.....	15
Ffigur 4.2: Rhwyddineb recriwtio yn ôl grŵp staff – gofal cymdeithasol	16
Ffigur 4.3: Cost recriwtio – gofal cymdeithasol.....	17
Ffigur 4.4: Rhwyddineb cadw dros y 12 mis diwethaf – gofal cymdeithasol.....	18
Ffigur 4.5: Rhwyddineb cadw yn ôl grŵp staff – gofal cymdeithasol	19
Ffigur 4.6: Defnydd o staff asiantaeth – gofal cymdeithasol.....	20
Ffigur 4.7: Swyddi gwag – gofal cymdeithasol	21
Ffigur 4.8: Ceisiadau gan y gweithlu sydd o'r UE ac nid y DU – gofal cymdeithasol.....	22
Ffigur 4.9: Cadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU – gofal cymdeithasol	23
Ffigur 4.10: Rhesymau dros staff sydd o'r UE ac nid y DU yn gadael – gofal cymdeithasol	24
Ffigur 5.1: Amcangyfrif o'r gyfran o staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig	25
Ffigur 5.2: Amcangyfrifon yn ôl mathau o staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig	27
Ffigur 5.3: Amcangyfrifon yn ôl grwpiau consortia addysg mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig	28
Ffigur 6.1: Rhwyddineb recriwtio a chadw – gofalu am blant yn ystod y dydd	29
Ffigur 6.2: Rhwyddineb recriwtio yn ôl grŵp staff – gofalu am blant yn ystod y dydd.....	30
Ffigur 6.3: Rhwyddineb cadw yn ôl grŵp staff – gofalu am blant yn ystod y dydd	31
Ffigur 6.4: Cost recriwtio – gofalu am blant yn ystod y dydd.....	32
Ffigur 6.5: Defnydd o staff cyflenwi neu asiantaeth – gofalu am blant yn ystod y dydd	33
Ffigur 6.6: Swyddi gwag – gofalu am blant yn ystod y dydd	34
Ffigur 6.7: Ceisiadau gan weithwyr sydd o'r UE ac nid y DU – gofalu am blant yn ystod y dydd	35

Ffigur 6.8: Cadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU – gofalu am blant yn ystod y dydd.....	36
Ffigur 7.1: Capasiti cofrestredig uchaf cymedrig - gofal plant	37
Ffigur 7.2: Rhestrau aros - gofal plant.....	38
Ffigur 7.3: Cymwysterau gwarchodwyr plant	39
Ffigur 7.4: Cymwysterau gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd.....	39

Geirfa

Testun yr eirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Brexit	Y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd
GDDP	Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
CIW	Arolygiaeth Gofal Cymru
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
LCI	Cyfwng hyder isaf
NMC	Cyngor Nyrsys a Bydwragedd
GCC	Gofal Cymdeithasol Cymru
UCI	Cyfwng hyder uchaf

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd Ipsos MORI ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg annibynnol o ddarparwyr gwasanaethau er mwyn helpu i ddeall effeithiau posibl Brexit, a sut y gallant rhyngweithio â'r heriau gweithlu sydd eisoes yn wynebu'r sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant.
- 1.2 Amcan cyffredinol yr arolwg oedd darparu gwybodaeth am nifer y gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU mewn is-sectorau penodol o fewn y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant (gwasanaethau gofal cartref, gwasanaethau gofal preswyl, cartrefi preswyl i blant, gwarchod plant a gofalu am blant yn ystod y dydd).
- 1.3 Yn benodol, roedd yn anelu at wneud y canlynol:
- darparu amcangyfrif cadarn o gyfraniad presennol gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU yn y sectorau gofal cymdeithasol a gofal plant cofrestredig;
 - nodi hyd a lled yr heriau a allai wynebu darparwyr o ran recriwtio a chadw, a hynny'n gyffredinol ac o ganlyniad i Brexit o bosib.
- 1.4 Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn manylu ar fethodoleg yr ymchwil ac yn darparu arweiniad ar ddehongli'r canlyniadau. Mae Adran 3 yn darparu amcangyfrifon o nifer y gweithwyr o'r UE ac nid y DU sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig, ac mae Adran 4 yn amlinellu'r canfyddiadau mewn cysylltiad â recriwtio a chadw staff. Mae Adrannau 5 a 6 yn debyg ond ar gyfer gofal plant yn lle, ac mae Adran 7 yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiynau ychwanegol am gapasiti cofrestredig uchaf, rhestrau aros a chymwysterau staff yn y sector gofal plant. I gloi, mae prif ganfyddiadau'r ymchwil hon wedi'u crynhoi yn Adran 8.

2. Methodoleg

- 2.1 Roedd yr ymchwili hon yn cynnwys arolwg dull cymysg o wasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant cofrestredig yng Nghymru. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein a dros y ffôn (gan ddefnyddio Cyfweliadau Personol drwy Gymorth Cyfrifiadur). Roedd y ddau ddull ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Sampl

- 2.2 Rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylion lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru i Ipsos MORI¹. Cafodd pob gwasanaeth yr oedd ei gyfeiriad e-bost neu ei gyfeiriad post ar gael wahoddiad i lenwi'r arolwg ar-lein (naill ai drwy e-bost neu drwy'r post). Gosodwyd cwtâu (a'u defnyddio i dargedu cyfweliadau ychwanegol dros y ffôn) i wneud yn siŵr bod digon o gyfweliadau wedi'u gwneud yn gyffredinol ac ym mhob is-sector.
- 2.3 Cafodd y gwaith maes ei wneud rhwng 17 Rhagfyr 2018 ac 16 Ionawr 2019. At ei gilydd, ymatebodd 850 o wasanaethau i'r arolwg; 87 ar-lein a 763 dros y ffôn, gan gynhyrchu 843 o ymatebion roedd modd eu defnyddio.²

¹ Hyd at 1 Ebrill 2019, dim ond darparwyr gofal cartref a chartrefi preswyl (oedolion a phlant) sy'n gorfod cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. O fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd gwasanaethau maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth yn cofrestru dan y Ddeddf hefyd, ond ni chafodd y rhain eu cynnwys o ganlyniad i'r niferoedd bach yng Nghymru, a fyddai wedi'i gwneud hi'n anodd samplu. Nid yw'r arolwg yn cynnwys micro-ddarparwyr sydd â phedwar aelod o staff neu lai, gan eu bod wedi'u heithrio rhag cofrestru dan y Ddeddf. Dim ond staff awdurdod lleol sy'n gweithio mewn lleoliad cofrestredig, e.e. gofal cartref mewnol neu wasanaeth cartref gofal.

² Tynnwyd 7 achos yn ystod y broses glanhau data o ganlyniad i wybodaeth anghyflawn neu groes.

Tabl 2.1: Proffil sampl o leoliadau gofal cofrestredig yng Nghymru

Is-sector	Poblogaeth		Sampl a gyflawnwyd		Cyfradd ymateb
	Nifer y gwasanaethau	% o'r boblogaeth	Nifer y gwasanaethau a ymatebodd	% o'r sampl	
Gofal cartref	453	8%	167	20%	37%
Gofal preswyl	1,084	19%	257	30%	24%
Cartrefi preswyl i blant	166	3%	62	7%	37%
Gwarchod plant	2,156 ³	37%	108	13%	5%
Gofalu am blant yn ystod y dydd	1,943	33%	249	30%	13%

Dyluniad yr holiadur

- 2.4 Mae'r astudiaeth yn debyg i un a wnaed gan Ipsos MORI yn edrych ar gyfraniad gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn yr Alban.⁴ Fodd bynnag, cafodd yr holiadur ei newid i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y cyd-destun yng Nghymru a'r cyd-destun yn yr Alban (mae'r holiadur llawn i'w weld yn Atodiad A).
- 2.5 Mae'r holiadur cyn fyred â phosib yn fwriadol er mwyn annog cyfranogiad ymysg y gynulleidfa darged a helpu i sicrhau cadernid y canlyniadau.
- 2.6 Roedd craidd yr holiadur yn cynnwys cyfres o gwestiynau i gasglu cyfanswm y staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau a samplwyd ar hyn o bryd – gan gynnwys y niferoedd mewn gwahanol categorïau staff – a nifer gwladolion yr UE ac nid y DU ym mhob achos. Yn ogystal â hynny, roedd yr holiadur yn cynnwys nifer fach o gwestiynau wedi'u codio ymlaen llaw i gasglu gwybodaeth am ganfyddiadau recriwtio a chadw staff (yn gyffredinol a gan gyfeirio at staff sydd o'r UE ac nid y DU

³ Nifer y gwasanaethau sydd ar y gofrestr llawn. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau wedi ei atal.

⁴ Ipsos MORI. (2018). *The Contribution of Non-UK EU Workers in the Social Care Workforce in Scotland* [ar-lein]. Caeredin: Llywodraeth yr Alban. Ar gael yn: <https://www.gov.scot/publications/contribution-non-uk-eu-workers-social-care-workforce-scotland/> [Gwelwyd 13 Chwefror 2019].

yn benodol). Ar ben hynny, ar gyfer gofal plant yn unig, gofynnwyd nifer fach o gwestiynau am gapasiti a chymwysterau staff.⁵

Dadansoddi a dehongli

- 2.7 Cafodd y data eu pwysoli fesul is-sector i wneud yn siŵr eu bod yn cynrychioli'r boblogaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal plant cofrestredig. Mae'r holl ffigurau a chanrannau yn yr adroddiad hwn (ac eithrio maint y samplau) yn seiliedig ar y data wedi'u pwysoli. Os nad yw'r canrannau'n adio'n 100%, gallai hynny fod o ganlyniad i dalgrynnu, eithrio categorïau 'ddim yn gwybod' neu fwy nag un ateb.
- 2.8 Cafodd yr amcangyfrifon o boblogaethau ar gyfer y gyfran o staff sydd o'r UE ac nid y DU eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfuniad o ddata'r arolwg a data poblogaeth ar nifer y gwasanaethau a nifer y staff, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 2.9 Mae gwall samplu yn berthnasol i holl amcangyfrifon yr arolwg, ac mae eu lled gwall tebygol yn amrywio. Mae'r 'gwir' ffigur yn debygol o fod o fewn y lled gwall hwn. Mae'r amcangyfrifon ar lefel gyffredinol (ar gyfer y sampl gyfan) yn gywir i tua +/- 3 phwynt canran. Mae'r amcangyfrifon ar lefel is-sectorau (gofal cartref, gofal preswyl, cartrefi preswyl i blant, gwarchod plant a gofalu am blant yn ystod y dydd) yn gywir i tua +/- 5 pwynt canran. Caiff yr amcangyfrifon allweddol yn yr adroddiad hwn – yn enwedig ar gyfer y gyfran o staff sydd o'r UE ac nid y DU – eu cyflwyno â'r cyfyngau hyder isaf ac uchaf wedi'u dangos bob amser.

Cyfyngiadau'r ymchwili

- 2.10 Dim ond lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru oedd o fewn cwmpas yr ymchwili hon. Mae lleoliadau cofrestredig yn cyfrif am tua dau draean o'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 2.11 Roedd cyflawnder y wybodaeth yn y ffrâm samplu yn amrywio – yn arbennig, dim ond tua 28% o'r sampl oedd yn cynnwys cyfeiriad e-bost.

⁵ Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth am lefelau cymwysterau staff gofal cymdeithasol yn ddiweddar, a hynny i baratoi ar gyfer cyflwyno cofrestru gorfodol i weithwyr <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/casgliad-data-gweithlu-2017-rhaglen-datblygu-gweithlu-gofal-cymdeithasol-cymru-rhdggcc-gwasanaethau-darparwyr-gofal-a-gomisiynwyd>.

- 2.12 Mae gan is-grwpiau llai – er enghraifft, dadansoddiadau yn ôl rhanbarth neu grŵp staff o fewn sector – gyfyngau hyder mwy, ac felly dylid cymryd rhagor o ofal wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn.
- 2.13 Roedd yr arolwg yn gofyn cwestiynau ar wahân am staff o Weriniaeth Iwerddon, ond roedd nifer y lleoliadau sy'n cyflogi staff o'r wlad hon yn fach iawn, ac felly nid yw'r dadansoddiad hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

3. Gofal cymdeithasol: Maint y gweithlu sydd o'r UE ac nid y DU

- 3.1 Mae amcangyfrif o 6.4% o'r staff mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn wladolion yr UE ac nid y DU. Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod tua 45,450 o bobl yn gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, ac felly mae 6.4% yn cyfateb i tua 2,900 o weithwyr.⁶ Cyfwng hyder isaf yr amcangyfrif hwn yw 4.5%, a'r cyfwng hyder uchaf yw 8.2%. Mae hyn yn cyfateb i rhwng 2,060 a 3,730 o weithwyr.

Amrywiadau yng nghyfran y staff o'r UE yn ôl is-sector, math o gyflogwr a grŵp staff

- 3.2 Roedd rhywfaint o amrywio yn nifer dybiedig y staff sydd o'r UE ac nid y DU yn ôl **is-sector** (gofal cartref, gofal preswyl, cartrefi preswyl i blant – gweler Tabl 3.1 a Ffigur 3.1), **math o gyflogwr** (cyhoeddus, preifat neu wirfoddol – gweler Ffigur 3.2) a **grŵp staff** (Rheolwyr, Staff gweinyddol/cymorth, Ymarferwyr gofal plant,⁷ Nyrsys sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd, ac ymarferwyr gofal cymdeithasol a gofal iechyd – gweler Ffigur 3.3).⁸
- 3.3 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cyfyngau hyder ar gyfer gwahanol is-grwpiau yn gorgyffwrdd, sy'n golygu y dylid cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli hyd a lled tebygol gwirioneddol unrhyw wahaniaeth rhwng grwpiau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd yw'r grŵp staff â'r gyfran uchaf o weithwyr sydd o'r UE ac nid y DU (17.7%, cyfwng hyder isaf = 9.5%; cyfwng hyder uchaf = 26.0%).


⁶ Mae'r data poblogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata o'r arolwg o'r gweithlu gofal cymdeithasol (SCWDP 2017), STF 2017-18 a Chofrestr 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru.

⁷ Yn bennaf, cartrefi preswyl i blant yw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cyflogi ymarferwyr gofal plant.

⁸ Dyma'r diffiniadau o gategorïau staff sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg:

- Rheolwr (gan gynnwys Rheolwr Gwasanaeth/Cartref) – gan gynnwys: rheolwyr uned/prosiect, rheolwyr/cyfarwyddwyr grŵp, rheolwyr cynorthwyol.
- Aelod o staff gweinyddol/cymorth – gan gynnwys: staff clercaidd, cyllid ac Adnoddau Dynol a staff ategol (e.e. arlwy, domestig, garddio).
- Ymarferydd Gofal Plant - gan gynnwys: gwarchodwyr plant, rheolwyr/goruchwylwyr gofal dydd, goruchwylwyr gofal sesiynol, goruchwylwyr ystafell neu arweinwyr tîm, cynorthwywyr nyrsys meithrinfeidd, ac ymarferwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol.
- Nyrs sydd wedi'i Chofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd.
- Ymarferydd gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (ac eithrio Nyrsys sydd wedi'u Cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd) – gan gynnwys: gweithwyr cymdeithasol, cynorthwywyr gofal, gweithwyr gofal, swyddogion gofal, cydlynwyr gofal, uwch weithwyr gofal, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Ffigur 3.1: Amcangyfrif o'r gyfran o staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig




Sylfaen: Pob math o ofal cartref (167); gofal preswyl (257); cartrefi preswyl i blant (62); pob math o ofal cymdeithasol (486)

Tabl 3.1: Amcangyfrif o faint staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig


	Gofal cartref	Gofal preswyl	Cartrefi preswyl i blant	<i>Pob math o ofal cymdeithasol</i>
Ffigurau poblogaeth				
Cyfanswm y gwasanaethau	453	1,084	166	1,703
Cyfanswm y staff	17,844	24,744	2,871	45,459
Ffigurau'r arolwg				
Cyfanswm y gwasanaethau (heb ei bwysoli)	167	257	62	486
Cyfanswm y staff (heb ei bwysoli)	10,844	7,561	1,232	19,637
Amcangyfrifon				
% o'r staff sydd o'r UE ac nid y DU	4.1%	8.3%	4.2%	6.4%
Cyfanswm y staff sydd o'r UE ac nid y DU	730	2,050	120	2,900
Cyfyngau hyder				
% isaf	1.7%	5.3%	0.3%	4.5%
% uchaf	6.5%	11.2%	8.2%	8.2%
Amcangyfrif isaf	300	1,320	10	2,060
Amcangyfrif uchaf	1,150	2,780	230	3,730

Ffigur 3.2: Amcangyfrifon yn ôl math o gyflogwr mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig




Sylfaen: Preifat - pob un (389); cyhoeddus (57); gwirfoddol (36)

Ffigur 3.3: Amcangyfrifon yn ôl mathau o staff mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig



Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n cyflogi rheolwyr (485); staff gweinyddol/cymorth (321); ymarferwyr gofal plant (52); nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwagedd (73); ymarferwyr gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (367); arall (162)

Ffigur 3.4: Amcangyfrifon yn ôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol⁹ mewn lleoliadau gofal cymdeithasol cofrestredig




Sylfaen: Yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru (160); Powys (21); Gorllewin Cymru (81); Bae'r Gorllewin (58); Cwm Taf (28); Gwent (68); Caerdydd a'r Fro (70)

⁹ Ym mis Ebrill 2016, daeth saith partneriaeth rhanbarthol statudol i fodolaeth. Eu pwrpas yw sbarduno'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn rhanbarthol ac yn strategol mewn cydweithrediad agos â'r byrddau iechyd. Gweler: <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb-byrddau-partneriaeth-rhanbarthol>

4. Gofal cymdeithasol: Safbwyntiau ar recriwtio a chadw staff

- 4.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau ar recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys i ba raddau yr oeddent wedi'i chael hi'n haws neu'n anoddach recriwtio a chadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU dros y 12 mis diwethaf.
- 4.2 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod recriwtio yn un o brif heriau'r sector gofal cymdeithasol. Ar draws pob darparwr gofal cymdeithasol cofrestredig a ymatebodd, roedd 58% yn dweud eu bod wedi'i chael hi'n anodd recriwtio dros y 12 mis diwethaf (28% yn dweud 'anodd iawn' a 30% yn dweud 'gweddol anodd').
- 4.3 Roedd gwasanaethau gofal cartref yn arbennig o debygol o ddweud eu bod wedi'i chael hi'n anodd recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (72% - 41% yn dweud anodd iawn; 31% yn dweud gweddol anodd), wedi'u dilyn gan 54% o wasanaethau gofal preswyl (25% yn dweud anodd iawn; 29% yn dweud gweddol anodd), a 41% o gartrefi preswyl i blant (9% yn dweud anodd iawn; 32% yn dweud gweddol anodd).


Ffigur 4.1: Rhwyddineb recriwtio dros y 12 mis diwethaf – gofal cymdeithasol



Sylfaen: Pob gwasanaeth sydd wedi ceisio recriwtio staff yn ystod y 12 mis diwethaf - gofal cartref (163); gwasanaeth gofal preswyl (239); cartrefi preswyl i blant (58)

4.4 O ran grwpiau staff, mae'n ymddangos ei bod hi wedi mynd yn anoddach recriwtio nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd ac ymarferwyr gofal cymdeithasol neu ofal iechyd yn arbennig (Ffigur 4.2).¹⁰ Roedd dros hanner (59%) yr ymatebwyr a oedd wedi ceisio recriwtio nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd yn dweud bod hynny wedi mynd yn anoddach dros y 12 mis diwethaf (48% yn dweud anoddach o lawer; 11% yn dweud ychydig yn anoddach), ac roedd 43% yn dweud yr un peth mewn cysylltiad ag ymarferwyr gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (29% yn dweud anoddach o lawer; 14% yn dweud ychydig yn anoddach). Roedd tua chwarter (26%) y rheini a oedd wedi ceisio recriwtio ymarferwyr gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dweud ei bod hi wedi mynd yn anoddach gwneud hynny¹¹, ac roedd 14% yn dweud yr un peth am recriwtio rheolwyr a staff gweinyddol/cymorth.

Ffigur 4.2: Rhwyddineb recriwtio yn ôl grŵp staff – gofal cymdeithasol



Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi ceisio recriwtio rheolwyr (360); gweinyddol/cymorth (267); ymarferwyr gofal plant (44); nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd (70); gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (339)


¹⁰ O blith y gwasanaethau sy'n cyflogi nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd, roedd bron i dri chwarter (74%) yn wasanaethau gofal preswyl.

¹¹ Sylwch fod maint bach y sylfaen ar gyfer ymarferwyr gofal plant yn golygu dylid trin y canlyniadau â rhywfaint o ofal. Yn bennaf, cartrefi preswyl i blant yw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cyflogi ymarferwyr gofal plant.

Cost recriwtio

- 4.5 Gofynnwyd i ddarparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig faint oeddent wedi'i wario ar recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ôl y disgwyl, roedd sefydliadau mwy yn dueddol o wario mwy ar recriwtio, gyda'r gwasanaethau mwy (sy'n cyflogi dros 30 aelod o staff) yn gwario mwy: roedd 51% o'r grŵp hwn wedi gwario £1,000+ o'i gymharu â chyfartaledd yr arolwg, 41%.
- 4.6 Eto, roedd amrywiadau yn ôl is-sectorau (Ffigur 4.3). Roedd bron i chwarter (24%) y gwasanaethau gofal preswyl yn dweud eu bod heb wario o gwbl ar recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd 11% o wasanaethau gofal cartref ac 8% o gartrefi preswyl i blant

Ffigur 4.3: Cost recriwtio – gofal cymdeithasol




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi ceisio recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf ac a oedd yn gallu amcangyfrif faint oedd wedi'i wario ar recriwtio - gofal cartref (132); gwasanaeth gofal preswyl (151); cartrefi preswyl i blant (29)

Cadw

- 4.7 Roedd anawsterau o ran cadw staff gofal cymdeithasol yn llai cyffredin na'r heriau wrth eu recriwtio yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, dywedodd chwarter y gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig eu bod wedi'i chael hi'n anodd cadw staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (7% yn dweud anodd iawn; 19% yn dweud gweddol anodd).
- 4.8 Eto, mae'n ymddangos bod cadw staff yn heriol iawn i wasanaethau gofal cartref (Ffigur 4.4) - roedd 37% o'r ymatebwyr gofal cartref yn dweud eu bod wedi'i chael hi'n anodd recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf (9% yn dweud anodd iawn; 28% yn dweud gweddol anodd), o'i gymharu â 24% o gartrefi preswyl i blant a oedd yn dweud yr un fath (8% yn dweud anodd iawn; 16% yn dweud gweddol anodd) a 21% o wasanaethau gofal preswyl (6% yn dweud anodd iawn; 15% yn dweud gweddol anodd).


Ffigur 4.4: Rhwyddineb cadw dros y 12 mis diwethaf – gofal cymdeithasol



Sylfaen: Pob gwasanaeth lle bo'n briodol - gofal cartref (165); gwasanaeth gofal preswyl (255); cartrefi preswyl i blant (62)

4.9 Yn unol â'r canfyddiadau mewn cysylltiad â recriwtio, roedd bron i ddau o bob pump gwasanaeth (39%) yn dweud bod cadw nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd wedi mynd yn anoddach yn ystod y 12 mis diwethaf (17% yn dweud anoddach o lawer; 22% yn dweud ychydig yn anoddach). Roedd 24% yn dweud yr un fath am ymarferwyr gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (11% yn dweud anoddach o lawer; 13% yn dweud ychydig yn anoddach), ac roedd 21% yn dweud hyn am ymarferwyr gofal plant (14% yn dweud anoddach o lawer; 7% yn dweud ychydig yn anoddach).¹²

Ffigur 4.5: Rhwyddineb cadw yn ôl grŵp staff – gofal cymdeithasol




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n cyflogi - rheolwyr (457); gweinyddol/cymorth (308); ymarferwyr gofal plant (50); nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd (72); gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (360)

¹² Sylwch fod maint bach y sylfaen ar gyfer ymarferwyr gofal plant yn golygu dylid trin y canlyniadau â rhywfaint o ofal.

Defnydd o staff cyflenwi neu asiantaeth

- 4.10 Dywedodd dros draean (36%) o'r ymatebwyr bod eu gwasanaeth gofal cymdeithasol cofrestredig wedi defnyddio staff cyflenwi neu asiantaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd 9% yn dweud eu bod wedi defnyddio staff cyflenwi neu asiantaeth yn rheolaidd iawn/drwy'r amser, 11% yn dweud eu bod wedi yn eithaf rheolaidd, ac 17% yn dweud eu bod wedi yn achlysurol. Dywedodd 63% nad oeddent wedi defnyddio staff cyflenwi neu asiantaeth yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 4.11 Mae'r canlyniadau'n dangos defnydd llai o staff asiantaeth ymysg gwasanaethau gofal cartref: roedd bron i bedwar o bob pump (79%) heb ddefnyddio staff cyflenwi neu asiantaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, o'u cymharu â 58% o wasanaethau gofal preswyl a 52% o gartrefi preswyl i blant.

Ffigur 4.6: Defnydd o staff asiantaeth – gofal cymdeithasol




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol - gofal cartref (167); gofal preswyl (257); cartrefi preswyl i blant (62)

Swyddi gwag

- 4.12 Roedd gan dros dri chwarter (77%) y gwasanaethau gofal cartref o leiaf un swydd wag ar adeg y cyfweiliad, fel yr oedd gan hanner y gwasanaethau gofal preswyl a 48% o'r cartrefi preswyl i blant.

Ffigur 4.7: Swyddi gwag – gofal cymdeithasol




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol - gofal cartref (157); gofal preswyl (253); cartrefi preswyl i blant (62)

Recriwtio a chadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU

- 4.13 Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau yn adrodd dim newid amlwg yn lefel y ceisiadau yr oeddent yn eu cael gan weithwyr sydd o'r UE ac nid y DU (Ffigur 4.8). Fodd bynnag, gan ailadrodd y patrwm o heriau canfyddedig cyffredinol mewn cysylltiad â recriwtio a amlinellir uchod, roedd gwasanaethau yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael llai o geisiadau gan weithwyr sydd o'r UE ac nid y DU ar gyfer swyddi nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd (25%), swyddi ymarferwyr gofal plant (16%; ond roedd 10% wedi dweud eu bod wedi cael mwy), a swyddi ymarferwyr gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (14%), o gymharu â swyddi rheoli neu weinyddol (5% a 7% yn y drefn honno).

Ffigur 4.8: Ceisiadau gan y gweithlu sydd o'r UE ac nid y DU – gofal cymdeithasol




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi ceisio recriwtio - rheolwyr (348); gweinyddol/cymorth (259); ymarferwyr gofal plant (48); nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd (68); gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (336)

- 4.14 Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o wasanaethau gofal cymdeithasol yn adrodd dim newid amlwg o ran pa mor anodd oedd cadw staff sydd o'r UE ac nid y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ond, eto, roedd cyfran ychydig yn uwch yn dweud ei bod wedi mynd yn anoddach cadw nyrsys sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd o'r UE (14%, 7% yn dweud anoddach o lawer; 7% yn dweud ychydig yn anodd. 1 o bob 10 ym mhob achos oedd yn dweud ei bod wedi mynd yn anoddach cadw ymarferwyr gofal cymdeithasol a gofal iechyd (5% yn dweud anoddach o lawer; 4% yn dweud ychydig yn anoddach) ac ymarferwyr gofal plant (4% yn dweud anoddach o lawer; 7% yn dweud ychydig yn anoddach) – Ffigur 4.9.¹³

¹³ Sylwch fod maint bach y sylfaen ar gyfer ymarferwyr gofal plant yn golygu dylid trin y canlyniadau â rhywfaint o ofal.

Ffigur 4.9: Cadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU – gofal cymdeithasol




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi cyflogi staff nad ydynt o'r DU yn ystod y 12 mis diwethaf - rheolwyr (162); gweinyddol/cymorth (122); ymarferwyr gofal plant (26); nyrsys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsys a Bydwragedd (44); gofal cymdeithasol neu ofal iechyd (195)

- 4.15 Ar draws y sector gofal cymdeithasol, roedd 18% yn dweud bod o leiaf un aelod o staff sydd o'r UE ac nid y DU wedi gadael eu gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Nid oedd rhyw lawer o amrywio yn ôl is-sectorau: 17% oedd y ffigur hwn ar gyfer gofal cartref, 18% ar gyfer gofal preswyl ac 16% ar gyfer cartrefi preswyl i blant.
- 4.16 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd y prif resymau dros staff sydd o'r UE ac nid y DU yn gadael eu gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth ddehongli'r data hyn, mae'n bwysig cofio mai rhesymau *canfyddedig* dros staff yn gadael yw'r rhain, fel yr adroddwyd gan ymatebwyr yr arolwg (rheolwyr fel arfer) yn hytrach na'r aelodau o staff eu hunain, a bod maint y sylfaen ar gyfer y cwestiwn hwn, 86, yn weddol fach.
- 4.17 Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd newid gyrfa neu i astudio (33%), dyrchafiad neu swydd well (25%) neu anfodlon ar elfennau o'r swydd (20%). Cafodd

adleoli i wlad yn yr UE ac nid y DU ei nodi gan 15%, a phryderon neu ansicrwydd ynghylch Brexit gan ddim ond 5%.

Ffigur 4.10: Rhesymau dros staff sydd o'r UE ac nid y DU yn gadael – gofal cymdeithasol




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal cymdeithasol lle mae unrhyw aelod o staff o'r UE wedi gadael yn ystod y 12 mis diwethaf (86)

5. Gofal plant: Maint y gweithlu sydd o'r UE ac nid y DU

- 5.1 Mae amcangyfrif o 4.5% o'r bobl sydd wedi'u cyflogi yn y sector gofal plant yng Nghymru yn wladolion o 27 yr UE ac nid y DU. At ei gilydd, mae tua 17,000 o bobl yn gweithio yn y sector gofal plant yng Nghymru, felly mae hynny'n cyfateb i tua 760 o weithwyr.¹⁴ Cyfwng hyder isaf yr amcangyfrif hwn yw 2.4% a'r cyfwng hyder uchaf yw 6.5%, sy'n cyfateb i rhwng 410 a 1,100 o weithwyr (Tabl 5.1).
- 5.2 Nifer y staff o 27 yr UE ac nid y DU mewn gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg oedd 4.6% (cyfwng hyder isaf=2.2%; cyfwng hyder uchaf=7.1%). Doedd dim un o'r 108 o warchodwyr plant a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil yn dod o 27 yr UE ac nid y DU, nac yn cyflogi rhywun o 27 yr UE ac nid y DU (Ffigur 5.1).

Ffigur 5.1: Amcangyfrif o'r gyfran o staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig



Sylfaen: Pob gwasanaeth gwarchod plant (108); Gofalu am blant yn ystod y dydd (249)


¹⁴ Mae'r data poblogaeth wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru a deuant o Ddatganiad Hunanasesu Gwasanaeth: Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae, Arolygiaeth Gofal Cymru, Awst 2016.

Tabl 5.1: Amcangyfrif o faint staff sydd o'r UE ac nid y DU mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig

Gwarchod plant / Gofalu am blant yn ystod y dydd	
Ffigurau poblogaeth	
Cyfanswm y gwasanaethau	4,099
Cyfanswm y staff	17,000
Ffigurau'r arolwg	
Cyfanswm y gwasanaethau (heb ei bwysoli)	357
Cyfanswm y staff (heb ei bwysoli)	3,098
Amcangyfrifon	
% o'r staff sydd o'r UE ac nid y DU	4.5%
Cyfanswm y staff sydd o'r UE ac nid y DU	760
Cyfyngau hyder	
% isaf	2.4%
% uchaf	6.5%
Amcangyfrif isaf	410
Amcangyfrif uchaf	1,100


5.3 Mae Ffigur 5.2 yn dangos amrywiadau yn nifer dybiedig y staff gofal plant sydd o'r UE ac nid y DU yn ôl rôl staff ac ardal ddaearyddol. Gan fod y cyfyngau hyder ar gyfer gwahanol grwpiau staff ac ardaloedd daearyddol yn gorgyffwrdd, dylid cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli hyd a lled gwirioneddol gwahaniaethau rhwng grwpiau.

Ffigur 5.2: Amcangyfrifon yn ôl mathau o staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig



Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal plant sy'n cyflogi - rheolwyr (240); staff gweinyddol/cymorth (111); ymarferwyr gofal plant (242)

Ffigur 5.3: Amcangyfrifon yn ôl grwpiau consortia addysg¹⁵ mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofal plant yng Ngwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (100); Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru (71); ERW (98); GwE (88)

¹⁵ Nid oedd maint y sampl yn caniatáu i'r canlyniadau gael eu cyflwyno yn ôl awdurdod lleol. Mae'r canlyniadau wedi cael eu cyflwyno yn ôl y pedwar consortiwm addysg ffurfiol yng Nghymru: Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg), Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen), ERW (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe), GwE (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam).

6. Gofal plant: Safbwyntiau ar recriwtio a chadw staff

- 6.1 Roedd yr arolwg yn gofyn am safbwyntiau ar recriwtio a chadw staff yn y sector gofal plant, gan gynnwys i ba raddau yr oedd darparwyr gwasanaethau wedi'i chael hi'n haws neu'n anoddach recriwtio a chadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU dros y 12 mis diwethaf. Dim ond ar ymatebion gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd y mae'r data yn yr adran hon yn seiliedig, gan mai dim ond nifer fach o warchodwyr plant yn ein sampl oedd yn cyflogi unrhyw staff (dim ond 12 o 108 gwarchodwr plant oedd yn cyflogi staff).
- 6.2 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod recriwtio yn her i nifer o wasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd ar hyn o bryd. Roedd bron i hanner (47%) y rheini a oedd wedi ceisio recriwtio staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dweud eu bod wedi'i chael hi'n anodd gwneud hynny (29% yn dweud gweddol anodd; 18% yn dweud anodd iawn - Ffigur 6.1).
- 6.3 O gymharu, roedd anawsterau cadw yn llai cyffredin: dywedodd 86% eu bod wedi'i chael hi'n hawdd cadw staff (43% yn dweud hawdd iawn; 43% yn dweud gweddol hawdd). Dim ond 14% oedd yn dweud eu bod wedi'i chael hi'n anodd cadw staff yn ystod y 12 mis diwethaf (11% yn dweud gweddol anodd; 3% yn dweud anodd iawn).


Ffigur 6.1: Rhwyddineb recriwtio a chadw – gofalu am blant yn ystod y dydd



Sylfeini: Recriwtio - pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd a oedd wedi ceisio recriwtio staff yn ystod y 12 mis diwethaf (212). Cadw - pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd ac eithrio'r rheini a oedd wedi nodi bod y cwestiwn yn amherthnasol (241)

6.4 Mae'r canlyniadau yn awgrymu ei bod wedi mynd yn anoddach recriwtio ymarferwyr gofal plant dros y 12 mis diwethaf yn arbennig (33% yn dweud anoddach; 16% yn dweud anoddach o lawer; 17% yn dweud ychydig yn anoddach), o'u cymharu â rheolwyr (13%; 8% yn dweud anoddach o lawer; 5% yn dweud ychydig yn anoddach) a staff gweinyddol/cymorth (7%; 6% yn dweud anoddach o lawer; 1% yn dweud ychydig yn anoddach – Ffigur 6.2).


Ffigur 6.2: Rhwyddineb recriwtio yn ôl grŵp staff – gofalu am blant yn ystod y dydd



Sylfaen: Pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd sydd wedi ceisio recriwtio i'r grŵp staff hwn yn ystod y 12 mis diwethaf - rheolwyr (150); staff gweinyddol/cymorth (81); ymarferwyr gofal plant (195)

6.5 Roedd llai o batrymau clir o ran rhwyddineb neu anhawster canfyddedig cadw gwahanol fathau o staff gofal plant. Dywedodd dros 1 o bob 10 (12%) gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd eu bod wedi'i chael hi'n anodd cadw ymarferwyr gofal plant yn ystod y 12 mis diwethaf (3% yn dweud anoddach o lawer; 9% yn dweud ychydig yn anoddach). Fodd bynnag, roedd 10% yn dweud eu bod wedi'i chael hi'n *haws* cadw'r grŵp hwn (2% yn dweud haws o lawer; 8% yn dweud ychydig yn haws). Roedd bron i naw o bob deg (92%) yn dweud nad oedd unrhyw newid wedi bod o ran pa mor anodd yw cadw rheolwyr (88%) a staff gweinyddol/cymorth.

Ffigur 6.3: Rhwyddineb cadw yn ôl grŵp staff – gofalu am blant yn ystod y dydd




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd sy'n cyflogi staff yn y categori hwn ac a ymatebodd - rheolwyr (225); staff gweinyddol/cymorth (107); ymarferwyr gofal plant (234)

Cost recriwtio

- 6.6 Roedd cyfran uchel (31%) o ddarparwyr gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd yn methu bwrw amcan o'u costau recriwtio, a dywedodd 41% nad oeddent wedi gwario ar recriwtio o gwbl (ond roeddent wedi recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf). O blith yr ymatebwyr sy'n weddill, roedd y gwariant yn gymharol isel. Roedd dros un o bob pump (21%) wedi gwario llai na £500 (Ffigur 6.4).

Ffigur 6.4: Cost recriwtio – gofalu am blant yn ystod y dydd




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd a oedd wedi ceisio recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf (212)

Staff cyflenwi neu asiantaeth

- 6.7 Roedd pedwar o bob pump (80%) yn dweud nad oeddent wedi defnyddio staff cyflenwi neu asiantaeth yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd 12% wedi'u defnyddio'n achlysurol, 5% yn eithaf rheolaidd a 3% yn rheolaidd iawn neu drwy'r amser.

Ffigur 6.5: Defnydd o staff cyflenwi neu asiantaeth – gofalu am blant yn ystod y dydd




Sylfaen: Gwasanaethau gofalu am blant drwy gydol y dydd (249)

Swyddi gwag

- 6.8 Dywedodd pedwar o bob pump (79%) darparwr gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd nad oedd ganddynt unrhyw swyddi gwag ar adeg yr arolwg (diwedd 2018/dechrau 2019). Doedd y rheini â swyddi gwag ddim yn dueddol o fod â llawer: roedd gan 14% un swydd wag yn unig.

Ffigur 6.6: Swyddi gwag – gofalu am blant yn ystod y dydd




Sylfaen: Pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd (245)

Recriwtio a chadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU

6.9 O blith y gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd a ymatebodd, ychydig o newid yr oeddent yn ei adrodd o ran nifer y ceisiadau a gafwyd gan weithwyr sydd o'r UE ac nid y DU yn ystod y 12 mis diwethaf (Ffigur 6.6). Dywedodd bron i bob ymatebydd nad oedd nifer y ceisiadau gan wladolion yr UE ar gyfer rolau gweinyddol neu gymorth (96%) a rolau rheolwyr (94%) wedi newid, a dywedodd 86% yr un fath ar gyfer rolau ymarferwyr gofal plant.


Ffigur 6.7: Ceisiadau gan weithwyr sydd o'r UE ac nid y DU – gofalu am blant yn ystod y dydd



Sylfaen: Pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd sydd wedi ceisio recriwtio - rheolwyr (160); staff gweinyddol/cymorth (76); ymarferwyr gofal plant (192)

- 6.10 Yn yr un modd, roedd mwyafrif helaeth y gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd a gyfwelwyd yn adrodd dim newid o ran pa mor hawdd oedd cadw staff sydd o'r UE ac nid y DU yn ystod y 12 mis diwethaf (Ffigur 6.8). Dim ond 6% a ddywedodd bod o leiaf un aelod o staff o'r UE ac nid y DU wedi gadael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ffigur 6.8: Cadw gweithwyr sydd o'r UE ac nid y DU – gofalu am blant yn ystod y dydd



Sylfaen: Pob gwasanaeth gofalu am blant sydd wedi cyflogi staff o 27 yr UE yn ystod y 12 mis diwethaf - rheolwyr (68); staff gweinyddol/cymorth (72); ymarferwyr gofal plant (41)


7. Gofal plant: Capasiti cofrestredig uchaf, rhestrau aros a chymwysterau

7.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ym maes gofal plant, a hynny'n warchodwyr plant ac yn wasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd, nifer fach o gwestiynau am eu capasiti cofrestredig uchaf, eu rhestrau aros a chymwysterau eu staff, er mwyn llywio gwaith polisi a chynllunio ehangach Llywodraeth Cymru.

Capasiti cofrestredig uchaf

- 7.2 Capasiti cofrestredig uchaf cymedrig gwarchodwyr plant oedd 9. Roedd gan 10% gapasiti cofrestredig uchaf o 5 neu lai, a dywedodd 28% ei fod yn 6-7, 10% ei fod yn 8-9, 45% ei fod yn 10-11 a 6% ei fod yn fwy nag 11.
- 7.3 Capasiti cofrestredig uchaf cymedrig gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd oedd 39. Dywedodd 23% bod eu capasiti cofrestredig uchaf yn llai nag 20, 27% ei fod yn rhwng 20 a 29, 16% ei fod rhwng 30 a 39, a 33% ei fod yn 50 neu fwy.

Ffigur 7.1: Capasiti cofrestredig uchaf cymedrig - gofal plant




Sylfaen: Pob gwasanaeth gwarchod plant (108); gofalu am blant yn ystod y dydd (248)


Rhestrau aros

- 7.4 Dywedodd 32% o warchodwyr plant a 37% o wasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd fod ganddynt, ar hyn o bryd, restr aros o blant sydd am gael lle ar unwaith. Nifer cymedrig y plant sy'n aros am le gyda'r gwarchodwyr plant hynny sydd â rhestr aros yw 4, ac roedd gan wasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd 8 o blant yn aros am le ar gyfartaledd.

Ffigur 7.2: Rhestrau aros - gofal plant



Gwarchod plant




Gofalu am blant yn
ystod y dydd

Sylfaen: Pob un sydd â rhestr aros: gwarchodwyr plant (33); gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd (66)

Cymwysterau

- 7.5 Gofynnwyd i warchodwyr plant sawl cymhwyster gofal plant sydd ganddynt. Dywedodd bron i un o bob pump (19%) fod ganddynt CYPOS 5, ac roedd gan 28% Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (GDDP) lefel 2. Roedd gan bron i hanner (46%) GDDP lefel 3 ac roedd gan 6% GDDP lefel 5. Dywedodd 27% nad oedd ganddynt unrhyw un o'r cymwysterau hyn (Ffigur 7.3).


Ffigur 7.3: Cymwysterau gwarchodwyr plant



Sylfaen: Pob gwasanaeth gwarchod plant

7.6 Gofynnwyd i'r gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd a ymatebodd faint o'r staff yn y gwasanaeth oedd yn meddu ar GDDP lefel 2, GDDP lefel 3 a GDDP lefel 5. Mae Ffigur 7.4 yn cyflwyno'r data hyn fel canran o reolwyr ac ymarferwyr gofal plant – y grwpiau sydd fwyaf tebygol o fod yn gymwys i astudio ar gyfer y cymwysterau hyn. Mae'r arolwg wedi canfod bod dros hanner (59%) o reolwyr ac ymarferwyr gofal plant yn yr is-sector hwn yn meddu ar GDDP lefel 2. Mae bron i dri chwarter (73%) yn meddu ar GDDP lefel 3 ac un o bob pump (19%) ar GDDP lefel 5.

Ffigur 7.4: Cymwysterau gwasanaethau gofalu am blant yn ystod y dydd



Sylfaen: Pob gwasanaeth gofalu am blant yn ystod y dydd (249)

8. Crynodeb a chasgliadau

